CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

At: Aelodau'r Pwyllgor Safonau

Dyddiad: 23 Ionawr 2014

Rhif Union: 01824 706204

ebost: dcc_admindenbighshire.gov.com.uk

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 31 IONAWR 2014** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 3 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 25 Hydref, 2013 (mae copi ynghlwm).

**5 COFRESTR CYSYLLTIADAU AELODAU** (Tudalennau 11 - 18)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) ar y newidiadau deddfwriaethol sy'n ymwneud â Chofrestr Cysylltiadau Aelodau.

**6 MYNYCHU CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn y Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**7 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau am 10.00am ar ddydd Gwener 14 Mawrth 2014 yn Ystafell Gynadledda 1B, Neuadd y Sir, Rhuthun.

**RHAN 2: MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem(au) busnes canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13, Rhan 4 Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**8 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Nodi nad oes, ers y cyfarfod diwethaf, unrhyw newid i'r adroddiad cyfrinachol ar gwynion yn erbyn aelodau a gofnodwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**AELODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Y Parch. Wayne Roberts, Ian Trigger (Cadeirydd), Ms Margaret Medley a Mrs. Paula White

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
Y Cynghorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:
Y Cynghorydd Bill Cowie
Y Cynghorydd Colin Hughes

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1b, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Gwener, 25 Hydref 2013 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Aelodau Annibynnol - Ms Margaret Medley, y Parchedig Wayne Roberts, Mr Ian Trigger (Cadeirydd) a Mrs Paula White ynghyd â'r Cynghorydd Sir a'r Cynghorydd Cymuned David Jones

**HEFYD YN BRESENNOL**

Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

Ms Annie Ginwalla, Swyddog Ymchwilio - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (eitem 4 yn unig).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Colin Hughes

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni chafodd unrhyw gysylltiadau personol neu ragfarnol eu datgan.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 YSTYRIED SYLWADAU A PHENDERFYNIAD TERFYNOL ADRODDIAD A BARATOWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU DAN ADRAN 71(2)(C) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000 (REF 2871/201002627)**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Ms Annie Ginwalla, Swyddog Ymchwilio - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Cyflwynwyd pawb oedd yn bresennol ac eglurwyd dull a threfn y cyfarfod. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod wedi derbyn copïau o Adroddiad Ymchwiliad yr Ombwdsmon ac wedi cael cyfle i astudio'r dogfennau ymlaen llaw.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried canfyddiadau Adroddiad Ymchwiliad yr Ombwdsmon ynglŷn â honiad bod y cyn-Gynghorydd Sir Allan Pennington wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor, ynghyd ag unrhyw sylwadau a wnaed gan y cyn-Gynghorydd Pennington mewn perthynas â'r canfyddiadau hynny, ac i wneud penderfyniad terfynol mewn perthynas â'r mater. Nid oedd Mr Pennington yn bresennol yn y cyfarfod ac roedd wedi methu ag ymateb i ohebiaeth gan y Cyngor na darparu unrhyw sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i ganfyddiadau'r Ombwdsmon. Dywedodd y Swyddog Monitro (MO) wrth baratoi ar

gyfer y gwrandawiad, yr ysgrifennwyd at Mr Pennington ar ddau achlysur - anfonwyd yr ail lythyr drwy ddosbarthiad wedi'i gofnodi a rhoddwyd llofnod ar ei dderbyn er nad oedd yn glir pwy oedd y llofnodwr. Ar y sail honno roedd y Pwyllgor yn fodlon bod Mr Pennington yn ôl pob tebyg wedi derbyn hysbysiad o'r gwrandawiad a'r holl ddogfennaeth angenrheidiol. O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor i fwrw ymlaen â'r gwrandawiad yn absenoldeb Mr Pennington.

Cyflwynodd Ms Annie Ginwalla, Swyddog Ymchwilio adroddiad yr Ombwdsmon ar yr ymchwiliad. Rhoddodd fanylion yr honiadau, cefndir cyfreithiol a deddfwriaeth berthnasol, a rhoddodd ddadansoddiad o'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys ffeithiau dadleuol, ynghyd â chasgliadau a wnaed.

Yn gryno rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y canlynol -

- Cafwyd cwyn bod y cyn-Gynghorydd Pennington wedi methu cadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cyngor Sir Ddinbych ar 8 Rhagfyr, 2010, pan ddaeth i gyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu. Honnwyd y dylai'r cyn-Gynghorydd fod wedi datgan cysylltiad personol yn y cyfarfod hwn o ganlyniad i'w waith fel gyrrwr tacsi pan drafodwyd a phleidleisiwyd ar fater yn ymwneud â'r drefn profi cerbydau Hurio Preifat.
- Roedd y cyn-Gynghorydd yn gwadu fod ganddo gysylltiad a'i fod wedi cymryd rhan yn y pleidleisio ar yr eitemau dan sylw. Roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau a staff yn bresennol yn y cyfarfod yn cadarnhau nad oedd y cyn-Gynghorydd wedi datgan cysylltiad; roedd yn rhan yn y trafodaethau ac wedi pleidleisio ar nifer o gynigion yn ymwneud â'r busnes tacsi
- Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod y busnes a gynhaliwyd yn y cyfarfod yn ymwneud â neu'n debygol o effeithio ar gyflogwyr y cyn-Gynghorydd Pennington a oedd â'r potensial i effeithio ar ei waith hefyd, gan achosi cysylltiad personol a rhagfarnol. Nododd yr ymchwiliad hefyd fod y cyn-Gynghorydd Pennington wedi methu â diweddaru ei gofrestr statudol o fewn 28 diwrnod ar ôl cychwyn ar ei waith fel gyrrwr tacsi ym mis Gorffennaf 2008
- ar sail y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad, roedd yr Ombwdsmon yn fodlon y gallai ymddygiad y cyn-Gynghorydd Pennington fod wedi mynd yn groes i baragraffau 10(1), 11(1), 14(1) (a) a 15(2) o'r Cod. O ganlyniad, cafodd yr adroddiad ei gyfeirio i'r Swyddog Monitro i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Amlygwyd hefyd bryder yr Ombwdsmon ynghylch honiadau a wnaed gan y cyn-Gynghorydd Pennington yn erbyn swyddogion y cyngor yn ystod yr ymchwiliad. Roedd yr honiadau hynny wedi eu hystyried yn faleisus ac yn ymgais i danseilio swyddogion a'u tystiolaeth. Roedd yn fater i'r Pwyllgor benderfynu a oedd y cyn-Gynghorydd wedi torri mynd yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod drwy ddwyn anfri ar swydd aelod trwy ei ymddygiad yn ystod yr ymchwiliad.

Mewn ymateb i gwestiynau cadarnhaodd Ms Ginwalla ei bod yn briodol i'r Pwyllgor i ystyried unrhyw doramodau pellach o'r Cod a nodwyd yn ystod y broses ymchwilio. Cadarnhaodd hefyd fod y cyn-Gynghorydd Pennington wedi cael gwybod am y posibilrwydd o fynd yn groes i baragraff 6(1)(a).

Ymneilltuodd y Pwyllgor i drafod yn breifat ar y sylwadau ynglŷn â’r ffeithiau ac a oedd y cyn-Gynghorydd Pennington wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Ar ôl trafodaeth ar yr holl faterion a godwyd, yn arbennig y ffeithiau dadleuol a fanylwyd ym mharagraff 52 o'r Adroddiad Ymchwiliad, cyhoeddodd y Swyddog Monitro eu canfyddiadau unfrydol ar y ffeithiau bod y cyn-Gynghorydd Pennington -

- wedi cymryd rhan yn y pleidleisio ar y materion a benderfynwyd yn y cyfarfod
- bod ganddo gysylltiad personol yn eitemau 3, 4 a 5 y cyfarfod
- y dylai fod wedi bod yn ymwybodol o'r cysylltiad hwnnw a’i ddatgan yn ystod y cyfarfod
- bod ganddo gysylltiad rhagfarnol yn eitemau 3, 4 a 5 y cyfarfod
- ni ddylai fod wedi aros yn y cyfarfod
- wedi methu diweddaru ei gofrestr statudol o gysylltiadau’r aelodau yn unol â'i rwymedigaethau o dan baragraff 15(2) o'r Cod.

Yna ystyriodd y Pwyllgor a, yn seiliedig ar y ffeithiau a ganfuwyd, a oedd y cyn-Gynghorydd Pennington wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Wrth ddefnyddio’r ffeithiau a ganfuwyd, canfu'r Pwyllgor bod y cyn-Gynghorydd wedi mynd yn groes i baragraffau 10(1), 11(1), 14(1)(a) a 15(2) o'r Cod Ymddygiad.

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd a aethpwyd yn groes i baragraff 6(1)(a) a bu’n arbennig o bryderus o ran yr honiad hwn. Yn seiliedig ar ymddygiad y cyn-Gynghorydd Pennington yn ystod yr ymchwiliad fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad ac a nodwyd yn yr atodiadau i'r adroddiad, cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol fod ei ymddygiad yn gyfystyr â mynd yn groes i baragraff 6(1)(a).

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor wedi'u seilio ar sylwadau'r Ombwdsmon a restrwyd yn yr Adroddiad Ymchwiliad a chytunodd y Pwyllgor â'r cyflwyniadau hynny. O ran yr honiadau di-sail a wnaed gan y cyn-Gynghorydd yn erbyn swyddogion y cyngor, roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i fynegi eu hyder yn y swyddogion hynny.

Ar y pwynt hwn gwahoddwyd Ms Ginwalla, Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau ynghylch a ddylai'r Pwyllgor ddefnyddio sancsiwn a pha ffurf y dylai unrhyw sancsiwn ei gymryd. Dywedodd fod yr Ombwdsmon o'r farn y byddai'n briodol i roi cerydd yn yr amgylchiadau i adlewyrchu natur ddifrifol y toramodau a bod yn nodyn atgoffa i’r cyn-Gynghorydd a chynghorwyr eraill am bwysigrwydd y Cod a'r cyfrifoldeb y rhodda’r Cod arnynt. Gan nad oedd Mr Pennington bellach yn gynghorydd, roedd sancsiynau yn gyfyngedig, fel arall byddai’n rhaid chwilio am sancsiwn mwy difrifol. Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ynghylch defnyddio sancsiwn ar gyfer toramod benodol a chynghorodd y Swyddog Monitro’r Pwyllgor i ystyried yr ymddygiad yn ei gyfanrwydd yn hytrach na thoramodau unigol. Rhoddodd fanylion y broses i'w dilyn pe bai sancsiwn yn cael ei rhoi a chyhoeddi penderfyniad y Pwyllgor.

Ymneilltuodd y Pwyllgor i drafod yn breifat ar y sylwadau y dylai’r cyn-Gynghorydd Pennington gael ei geryddu. O ystyried natur y toramodau, yn enwedig mewn perthynas â mynd yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod daeth y Pwyllgor i gasgliad unfrydol y dylid rhoi cerydd cyhoeddus i’r cyn-Gynghorydd Allan Pennington.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith y byddent wedi rhoi sancsiwn mwy difrifol pe bai'r opsiwn hwnnw wedi bod ar gael iddynt.

***PENDERFYNWYD*** *bod y cyn-Gynghorydd Allan Pennington gael ei geryddu yn gyhoeddus.*

Y rhesymau dros y penderfyniad oedd bod y Pwyllgor wedi cytuno'n unfrydol â'r rhesymau a nodwyd yn Adroddiad Ymchwiliad yr Ombwdsmon ar gyfer canfyddiadau'r ffeithiau a mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Ginwalla am ei hadroddiad a'i chyflwyniad cynhwysfawr.

Ar y pwynt hwn (11.30am) cafwyd egwyl am baned.

**5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2013.

**Cywirdeb:-**

Rhif Tudalen: 23 - eitem rhif 9 Presenoldeb mewn Cyfarfodydd – gofynnodd y Cynghorydd Bill Cowie am i'r cyfeiriad at 'W.E. Cowie' gael ei newid i 'W.L. Cowie'. Gofynnodd y Cynghorydd David Jones hefyd am newid 'Roedd y Cyngor Cymuned wedi mynegi eu hyder yn eu Clerc ...' i 'Roedd gan y Cyngor Cymuned hyder clir yn eu Clerc ...'

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid, yn amodol ar yr uchod, dderbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2013 fel cofnod cywir.*

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2012/13**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (MO) adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) gan y sy'n rhoi gwybod i'r aelodau am Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2012/13. Roedd Adroddiad yr Ombwdsmon wedi cael ei gynnwys fel atodiad.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y prif negeseuon canlynol -

- syrthiodd nifer y cwynion a gafwyd am ymddygiad aelodau yn ystod 2012/13 29% o'i gymharu â'r nifer a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol, a oedd yn bennaf yn ymwneud â 2011/12 yn bod yn flwyddyn etholiad; defnydd amhriodol o'r system gwynion a llwyddiant datrysiadau lleol.
- roedd cwynion yn ymwneud ag awdurdodau unedol wedi gostwng o 178 yn 2011/12 i 150 yn 2012/13 ac mewn Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned o 205 yn 2011/12 i 140 yn 2012/13 (gallai'r gostyngiad yn nifer y cwynion am Gynghorwyr Tref Prestatyn yn 2012/13 gyfrif am y gostyngiad)

- roedd y mwyafrif o gwynion a gafwyd yn ystod 2012/13 yn ymwneud â - cydraddoldeb a pharch (35%), atebolrwydd ac agoredrwydd (19%), datgan a chofrestru cysylltiadau (18%) a gonestrwydd (18%)
- cafodd 371 o gwynion eu cau yn 2012/13 gyda 283 yn cael eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol, 18 lle daeth yr ymchwiliad i ben, 23 lle nad oedd unrhyw dystiolaeth o doramodau a 15 lle tybiwyd nad oedd angen unrhyw gamau - dim ond 20 o achosion a gyfeiriwyd i wrandawiad, 15 i Bwyllgorau Safonau a 5 i Banel Dyfarnu Cymru
- dadansoddiad ystadegol o ganlyniadau gan awdurdodau lleol gyda 4 cwyn wedi eu cau mewn perthynas ag Aelodau Sir Ddinbych ar ôl ystyriaeth gychwynnol gyda dim materion yn arwain at ymchwiliad.

Roedd materion eraill o ddiddordeb yn cynnwys newidiadau i arferion gweithio a newidiadau i'r canllawiau sy'n deillio o benderfyniad yr Uchel Lys mewn perthynas â'r Cynghorydd Calver o Faenorbŷr yr oedd y Pwyllgor wedi'i drafod eisoes. Cyfeiriwyd hefyd yn yr adroddiad at gefnogaeth yr Ombwdsmon am y cap gwirfoddol ar lefel indemniadau a ddarperir i aelodau mewn achosion safonau ynghyd â'r defnydd o ddeddfwriaeth i osod cap os na ellid sicrhau cytundeb gwirfoddol.

Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am ddethol y materion perthnasol ar gyfer aelodau i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *bod cynnwys canllawiau diwygiedig yr Ombwdsmon yn cael eu nodi.*

## 7 CAP AR INDEMNIAD AELODAU AR GYFER CWYNION COD YMDDYGIAD

Cyflwynydd y Swyddog Monitro (MO) adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn am wneud argymhelliad i'r Cyngor y dylid capio'r indemniad sydd ar gael i'r Aelodau sy'n ymwneud â gwrandawiadau Cod Ymddygiad ar uchafswm o £20,000.

Roedd graddfa'r indemniad a ddarparwyd gan awdurdodau lleol i Aelodau wedi bod yn destun llawer o drafod gyda phryderon yn cael eu mynegi gan CLlLC, yr Ombwdsmon a Chadeirydd Panel Dyfarnu Cymru. Roedd barn CLlLC a'r Ombwdsman wedi ei nodi yn yr adroddiad ar gyfer ystyriaeth bellach. Roedd y Pwyllgor wedi trafod y mater o indemniadau yn anffurfiol yn flaenorol ac wedi cefnogi cap ac roedd rŵan yn ystyried rhinweddau'r argymhelliad ffurfiol fel y manylwyd yn yr adroddiad, yn nodi'r newid arfaethedig i ffurf yr indemniad fel ynghlwm yn yr atodiad i'r adroddiad. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd ymatebodd yr MO i gwestiynau'r aelodau gan gadarnhau bod y ffigwr o £20,000 yn gap ac nid yn ffigwr targed, a phe canfuwyd bod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad byddai'n rhaid iddynt ad-dalu'r arian – bwriad yr indemniad oedd ar gyfer rhai a gyhuddir yn faleisus neu ar gam. O ran trefn, cyfrifoldeb y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fyddai penderfynu ar geisiadau am indemniad cost a swm yr indemniad hwnnw.

Cefnogodd yr Aelodau'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad a -

***PENDERFYNWYD -*** *Dylid argymell i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Cyngor -*

(a) *Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ystyried bob cais, fesul achos, ar gyfer indemniad costau er mwyn penderfynu a ddylid rhoi indemniad o gwbl.*

(b) *Os, mewn unrhyw achos unigol, y bydd indemniad yn cael ei roi mewn perthynas â materion yn ymwneud â mynd yn groes i God Ymddygiad yr Aelodau, dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol benderfynu ar swm yr indemniad hyd at uchafswm o £20,000, a*

(c) *Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor a'r math o indemniad yn ôl yr angen i adlewyrchu'r penderfyniadau hyn.*

**8 MYNYCHU CYFARFODYDD**

Adroddodd Aelodau'r Pwyllgor Safonau am eu presenoldeb mewn cyfarfodydd y Cynghorau Sir, Tref a Chymuned fel a ganlyn -

Mynychodd y Parchedig Wayne Roberts gyfarfodydd y Cyngor Sir fel Caplan y Cadeirydd fel mater o drefn a soniodd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2013 pan gafodd Adroddiad yr Ymchwilydd ar y llifogydd yng Nglasdir, Rhuthun ei ystyried. Bu trafodaeth dda a llongyfarchwyd y Cadeirydd gan y Parchedig Roberts ar ei reolaeth o'r cyfarfod ac adroddodd bod ymddygiad yn gyffredinol wedi bod yn ardderchog.

Adroddodd y Cynghorydd Bill Cowie ar gyfarfodydd rhagorol Cyngor Dinas Llanelwy a gafodd eu rhedeg yn dda heb unrhyw faterion sy'n peri pryder.

Adroddodd y Cadeirydd ar ei bresenoldeb yng Nghyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl ar 3 Gorffennaf, 2013 lle'r oedd awyrgylch cyfeillgar. Roedd naw Cynghorydd Cymuned yn bresennol ac er gwaethaf i aelod o'r cyhoedd siarad yn hirach na'r amser a neilltuwyd iddo yn y cyfarfod, cafodd y cyfarfod ei drin yn dda gan y Cadeirydd mewn dull cadarn a chyfeillgar. Yr unig fater yr oedd peth trafodaeth yn ei gylch oedd mater amherthnasol i'r rhaglen. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael y cyfle i hysbysu'r Cyngor Cymuned am bwysigrwydd hyfforddiant ac er bod y Cyngor wedi ymddangos yn awyddus roedd rhai pryderon am y gost. Roedd wedi cynghori bod hyfforddiant y Cod Ymddygiad yn cael ei ddarparu am ddim gyda sesiynau yn y dyfodol yn cael eu cynnal yn yr Haf a gwahoddiadau'n cael eu hanfon allan yn y Gwanwyn. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai sesiynau hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn cael eu cynnal yn fuan ar ôl y Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol ond y byddai tâl bychan yn cael ei chodi gan mai darparwr hyfforddiant allanol fyddai'n cael ei ddefnyddio. Dywedodd hefyd wrth yr aelodau bod Cyngor Tref Dinbych wedi cysylltu ag ef yn gofyn am hyfforddiant penodol ar ddatgan cysylltiad.

Nododd y Parchedig Wayne Roberts ei fwriad i fynychu cyfarfod yng Nghyngor Tref Dinbych ac roedd y Cynghorydd David Jones yn gobeithio mynychu cyfarfod Cyngor Cymuned Llanbedr DC ar 5 Tachwedd 2013.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiadau llafar oddi wrth aelodau a fu'n mynychu cyfarfodydd.*

**9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau am 10.00am ar ddydd Gwener 22 Tachwedd 2013 yn Ystafell Gynadledda 1B, Neuadd y Sir, Rhuthun.

Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd unrhyw eitemau ffurfiol i'w hystyried yn y cyfarfod hwnnw ond bod materion ar gael i'w trafod yn ymwneud â (1) Diwygiadau i'r Protocol Aelodau/Swyddogion, a (2) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar Gydbwyllgorau Safonau. Ni fyddai'r eitem ar Ganllawiau Cyfryngau Cymdeithasol yn barod mewn pryd ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Yn absenoldeb unrhyw faterion pwysig cytunodd y Pwyllgor i ohirio ystyried y ddau fater tan eu cyfarfod ym mis Ionawr a chanslo'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 22 Tachwedd. Pe bai unrhyw faterion brys yn codi yn ystod y cyfamser byddai cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor yn cael ei drefnu.

***PENDERFYNWYD** canslo cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau a drefnwyd ar gyfer 22 Tachwedd 2013.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**10 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (MO) adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd eisoes) yn darparu trosolwg o'r cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn yr aelodau ers 1 Ebrill 2012.

Nododd yr Aelodau ganlyniad y cwynion hynny a gwblhawyd yn ddiweddar ac ystyriwyd statws y cwynion a oedd yn mynd rhagddynt. Dywedodd y MO bod dwy o'r oedd yn mynd rhagddynt yn cael eu dirwyn i ben a bod y trydydd wedi cael ei drin gan y Pwyllgor yn gynharach ar y rhaglen. Soniodd y Cadeirydd am yr amser hir a gymerwyd i gwblhau'r broses gwyno mewn achosion penodol a manteision penderfyniad cyflym.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad.*

Cyn diwedd y cyfarfod ac ar gais y Cynghorydd David Jones, eglurodd y Swyddog Monitro'r gwahaniaeth rhwng rhagderfyniad a rhagdueddiad a darparodd nifer o enghreifftiau i ddangos y gwahaniaeth. Cafodd y Cynghorwyr eu cynghori i siarad gyda'r Swyddog Monitro os oedd ganddynt unrhyw amheuaeth yn hyn o beth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniad i'r cyfarfod a hefyd diolchodd i'r Swyddog Monitro am ei gymorth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **31 Ionawr 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Cofrestr Cysylltiadau Aelodau** |

---

**1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r newid yn y gyfraith ynglŷn â chofrestru cysylltiadau aelodau.

**2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 I ddwyn y newid yn y gyfraith i sylw'r aelodau a cheisio cefnogaeth y Pwyllgor ar y camau gweithredu arfaethedig er mwyn sicrhau bod y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned yn cydymffurfio â'r gofynion newydd.

**3 Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r newidiadau deddfwriaethol sy'n ymwneud â Chofrestr Cysylltiadau Aelodau a chymeradwyo'r camau a gymerir i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r newidiadau hynny.

**4 Manylion am yr adroddiad**

4.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio ymddygiad aelodau etholedig. Cyflwynodd Deddf 2000 y gofyniad gorfodol ar gyfer cod ymddygiad i aelodau etholedig ac i aelodau arwyddo i gadw at delerau'r Cod.

4.2 Un o elfennau allweddol y fframwaith moesegol yw'r angen am dryloywder wrth wneud penderfyniadau a datganiad gan aelodau o'u cysylltiad ag unrhyw eitem fusnes maent yn ei ystyried fel rhan o'u swydd fel cynghorydd.

4.3 Mae'n ofynnol i aelodau o dan baragraff 15 o'r Cod Ymddygiad gofrestru eu cysylltiadau ariannol ac eraill sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a) o'r Cod, o fewn 28 diwrnod o gael eu hethol neu eu penodi i swydd.

4.4 Mae'r ffurflen y gofynnir i Aelodau ei chwblhau er mwyn cofrestru eu cysylltiadau yn amgaeedig fel Atodiad 1 gyda'r adroddiad hwn.

4.5 Mae'n ofynnol i aelodau yn ôl y Cod gofrestru unrhyw gysylltiadau newydd neu unrhyw newid i'r cysylltiadau a gofrestrwyd o fewn 28 diwrnod ar ôl dod yn ymwybodol o'r cysylltiad newydd neu newidiadau.

4.6 Nid yw'r gofyniad i gofrestru yn amodol ar gytundeb y Swyddog Monitro, yn berthnasol i wybodaeth sensitif, sy'n cael ei diffinio gan y Cod fel gwybodaeth sydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd sy'n creu, neu'n debygol o greu, risg difrifol bod aelod neu berson sy'n byw gyda'r aelod yn destun trais neu fygythiadau. Fodd bynnag, mae gofyniad i roi gwybod i'r Swyddog Monitro am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n golygu nad yw'r wybodaeth bellach yn sensitif, ac i ofyn iddi gael ei chynnwys ar y gofrestr o fewn 28 diwrnod ar ôl dod yn ymwybodol o'r newid mewn amgylchiadau.

4.7 Mae Adran 81 o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Monitro pob awdurdod perthnasol sefydlu a chynnal Cofrestr Cysylltiadau Aelodau. Mae'r Gofrestr ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyflwyno ffurflen cofrestr cysylltiadau i bob aelod ar ôl pob etholiad llywodraeth leol, ac mae'r rhain yn cael eu cadw ar ffurf papur ar ffeil yn Neuadd y Sir a gellir eu harchwilio.

4.8 Mae Adran 58 Deddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") yn diwygio Adran 81 o Ddeddf 2000 drwy gyflwyno gofyniad i gyhoeddi'r Gofrestr Cysylltiadau Aelodau yn electronig. Mae yna ofyniad pellach i hysbysebu mewn papur newydd lleol bod y Gofrestr yn cael ei chyhoeddi yn electronig. Dylai'r hysbyseb hefyd nodi sut gellir cael mynediad at y gofrestr electronig.

4.9 Nid yw adran 58 mewn grym eto, ond mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi cyhoeddi eu cofrestri'n electronig fel mater o arfer da ac mae angen i'r Cyngor hwn fod yn barod i gyhoeddi yn electronig gynted ag y mae'r gyfraith yn dod i rym, os nad cyn hynny.

4.10 Wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r newidiadau, mae swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd wedi paratoi fersiynau electronig o'r ffurflenni Cymraeg a Saesneg a bellach maent mewn sefyllfa i gyhoeddi'r Gofrestr Cysylltiadau Aelodau ar wefan y Cyngor, wedi'i chysylltu â thudalen proffil pob Cynghorydd. Cyn i ni wneud hyn, gofynnir i'r Cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig adolygu eu cofrestr gyfredol a'i diweddaru os oes angen.

4.11 Y sefyllfa o ran Cynghorau Tref a Chymuned yw y bydd y Clerc yn gyfrifol am sicrhau bod y fersiwn electronig o'r Gofrestr Cysylltiadau'n cael ei chyhoeddi, er nad yw'r Cod ym mharagraff 15(4) yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned gofrestru. Mae rhai Cynghorau Tref a Chymuned yn cadw cofrestr ac ymddengys felly lle maent yn gwneud hynny, y dylid ei chyhoeddi'n electronig. Rhoddir cyngor i Glercod Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned ynghylch y sefyllfa gyfreithiol pan fydd yn dod yn gliriach.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r blaenoriaethau corfforaethol, mae cyflwyno cyhoeddiad electronig o'r Gofrestr Cysylltiadau Aelodau'n gyson â moderneiddio'r cyngor.

**6 Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd, ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

7.1 Nid oes angen asesiad o effaith ar gydraddoldeb.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**9 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Mae yna risg na fydd y cofrestri'n cael eu diweddaru'n rheolaidd gan yr aelodau. Bydd nodyn atgoffa rheolaidd i aelodau i sicrhau bod eu cysylltiadau cofrestredig yn gyfoes yn helpu i leihau'r risg hon.

**10 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 Adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**COD YMDDYGIAD AELODAU**

**COFRESTR O DDIDDORDEBAU AELODAU**

**Hysbysiad o Ddiddordebau**

**Enw'r Aelod………………………………………………………………………**

**Mae'r gyfraith, a Chôd Ymddygiad Aelodau, yn gofyn i chi ddatgan eich diddordebau personol. Mae'n rhaid i chi gofnodi rhai diddordebau personol yn y gofrestr gyhoeddus statudol, o fewn 28 diwrnod o gael eich ethol, neu eich penodi i swydd, ac mae'n rhaid i chi ddiweddaru hynny o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid. (Mae yna eithriad rhag i chi orfod datgan 'gwybodaeth sensitif', gall y Swyddog Monitro eich cynghori ynghylch hynny). O fewn rhai wythnosau o gael eich ethol, efallai y byddwch yn cael eich enwebu i gynrychioli'r Cyngor ar gorff allanol (gweler Adran 2 (a) y ffurflen hon). Cofiwch ofalu y byddwch yn cyflwno diweddariad pe byddech yn cael eich penodi ar gorff o'r fath.**

*Nodwch fanylion isod o'r holl ddiddordebau sy'n ofynnol eu cofrestru yn ôl Cod Ymddygiad Aelodau. Nodwch 'Dim' lle bo hynny'n berthnasol. Cofiwch fod yn rhaid i chi ddatgan unrhyw ddiddordebau perthnasol (yn cynnwys y rhai hynny ar y Gofrestr hon) pan fyddant yn berthnasol i faterion sy'n cael eu trafod mewn cyfarfod – gweler Cod Ymddygiad y Cyngor am arweiniad.*

| **ADRAN 1: DIDDORDEBAU ARIANNOL** |
|---|
| (a) Rhowch fanylion am unrhyw gyflogaeth neu fusnes a weithredir gennych. |
| (b) Nodwch enw'r person sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, enw unrhyw gwmni yr ydych yn bartner ynddo, a/neu enw unrhyw gwmni yr ydych yn Gyfarwyddwr cyflogedig iddo. |

(c) Nodwch enw unrhyw berson, (ac eithrio cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol, cyngor cymuned, awdurdod tân neu Awdurdod Parc Cenedlaethol), sydd wedi eich talu un ai mewn perthynas â'ch etholiad neu unrhyw gostau eraill i chi wrth ymgymryd â'ch dyletswyddau fel Aelod.

(d) Nodwch enw unrhyw gorff corfforaethol sydd â man busnes neu dir yn ardal y Cyngor, **ac** y mae gennych chi ddiddordeb buddiannol mewn dosbarth o warantau yn y busnes hwnnw sy'n uwch na gwerth enwol o £25,000 neu ganfed rhan o gyfanswm cyfalaf cyfanddaliadau wedi'i ddyroddi y corff hwnnw.

(e) Disgrifiwch unrhyw gytundeb am nwyddau, wasanaethau neu waith a wnaethpwyd rhwng y Cyngor a chi neu gwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn Gyfarwyddwr cyflogedig iddo, neu gorff sydd fel y disgrifiad a nodir ym mharagraff (d) uchod.

(f) Rhowch gyfeiriad neu ddisgrifiad arall (sy'n ddigon i adnabod y lleoliad) o unrhyw dir y mae gennych ddiddordeb buddiannol ynddo* ac sydd yn ardal y Cyngor.

* Golyga hyn fod yn berchennog, landlord neu denant y tir neu'r eiddo (yn cynnwys eich cartref), ac eithrio dan ymddiriedolaeth.

(g) Rhowch gyfeiriad neu ddisgrifiad arall (sy'n ddigon i adnabod y lleoliad) o unrhyw dir sydd â'r Cyngor yn landlord ac sydd â'r tenant yn gwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn Gyfarwyddwr cyflogedig iddo, neu gorff sydd fel y disgrifiad a nodir ym mharagraff (d) uchod.

| |
|---|
| (h) Rhowch gyfeiriad neu ddisgrifiad arall (sy'n ddigon i adnabod y lleoliad) o unrhyw dir yn ardal y Cyngor y mae gennych chi drwydded iddo (p'run ai ar eich pen eich hun neu gydag eraill) i'w ddal am 28 diwrnod neu fwy. |
| **ADRAN 2: DIDDORDEBAU ERAILL**<br>Nodwch a ydych yn aelod o, neu mewn safle o reolaeth gyffredinol mewn, unrhyw: |
| (a) gorff y cawsoch eich penodi neu eich enwebu iddo gan y Cyngor fel ei gynrychiolydd. |
| (b) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus |
| (c) gwmni, cymdeithas ddiwydiannol neu ddarbodus, elusen neu gorff sy'n gyfeiriedig at ddibenion elusennol |
| (d) gorff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn gyhoeddus neu bolisi |
| (e) undebau Llafur neu gymdeithas broffesiynol |

| |
|---|
| (f) glwb preifat neu gymdeithas sy'n gweithredu o fewn ardal yr Awdurdod. |

Wedi i chi lenwi'r ffurflen hon, llofnodwch isod a nodi'r dyddiad a'i dychwelyd at Swyddog Monitro, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun. LL15 1YN

**Arwyddwyd………………………………………………….. Dyddiad……………………**

**Nodwch fod yn rhaid i chi hysbysu'r Swyddog Monitro o unrhyw newidiadau yn y diddordebau a ddatganwyd uchod, o fewn 28 diwrnod o fod yn ymwybodol o'r cyfryw newidiadau.**